



# **Adroddiad Blynyddol y Llywodraethwyr i Rieni**

**Tymor yr Hydref 2021**

## Rhagair gan Gadeirydd y Llywodraethwyr

Fel y byddwch chi gyd yn gwybod, mae arna' i ofn bod Covid wedi parhau i effeithio ar fywyd yr ysgol yn ystod y flwyddyn academaidd ddiwethaf, hyd yn oed ar ôl codi rhai o'r cyfyngiadau tuag at ddiwedd tymor yr haf. Roedd yn rhaid i ddisgyblion ac athrawon unwaith eto ddelio â chyfnod clo a dysgu o bell, cyn cael dod yn ôl i'r adeilad wrth i ffigurau'r pandemig wella. Roedd rhaid i staff a disgyblion addasu wrth i reoliadau newydd, yn cynnwys gwisgo gorchuddion wyneb mewn nifer o'u gwersi.

Mae'r cyfnodau hyn wedi bod yn anodd i bawb ac, ar ran y Llywodraethwyr, hoffwn ddiolch i bawb, o'r staff arlwygo, gofalwyr, gweithwyr gweinyddol, athrawon a staff cymorth dysgu, am eu hymdrechion rhagorol i barhau i addysgu a dysgu o dan amgylchiadau nad oedden nhw'n ddelfrydol o gwbl.

Cyflwynwyd set newydd o heriau i ddisgyblion a staff yn ystod cyfnod canlyniadau arholiadau'r haf, a oedd yn wahanol i'r trefniadau a wnaed yn yr haf 2020. Roeddem ni'n falch â'n canlyniadau Safon Uwch a TGAU, gyda rhai disgyblion yn ennill graddau eithriadol o dda. Fe wnaeth mwyafrif disgyblion yr ysgol uwch adael â'r graddau yr oedd eu hangen arnynt ar gyfer eu cwrs Prifysgol dewisol, ac rydym yn falch bod llawer o ddisgyblion Blwyddyn 11 wedi dewis aros yn yr ysgol i astudio ar gyfer cymwysterau lefel uwch yn yr ysgol uwch. Dymunwn bob lwc iddyn nhw ar gyfer cam nesaf eu taith.

Rydym wrth ein boddau â'r cyfleoedd mae'r strwythur ysgol newydd yn eu darparu, o dan amgylchiadau arferol, ar gyfer gweithio'n gydweithredol ar draws y grwpiau blwyddyn, gyda rhai disgyblion y chweched dosbarth yn cynnig gweithgareddau allgyrsiol yn ystod amser cinio ac ar ôl ysgol, a sefydlu mentora ar draws grwpiau blwyddyn eraill, sy'n galluogi ein disgyblion i gefnogi, annog a helpu ei gilydd. Wrth reswm, mae'r gwaith hwn wedi cael ei gyfyngu i raddau gan y pandemig, ond mae'n sicr yn batrwm rydym ni'n mynd ati i'w ailsefydlu.

Mae'r Corff Llywodraethu wedi parhau i gyfarfod a chynnal ei fusnes ar-lein, a diolch i'm cyd-lywodraethwyr am eu hymroddiad a'u proffesiynoldeb. Mae is-bwyllgorau hefyd wedi parhau i gyfarfod, a chynhaliwyd cyfweiliadau trwy'r dull newydd hwn. Rydym ni'n benderfynol o weithio gydag arweinwyr a staff yr ysgol i ddarparu'r cyfleoedd gorau posibl i'n holl ddisgyblion dros y blynnyddoedd nesaf.

Julie Barton  
Cadeirydd y Llywodraethwyr

## Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf

### Corff Llywodraethol Ysgol Garth Olwg

Mae'r adroddiad hwn yn crynhoi'r camau a gymerwyd gan y Corff Llywodraethol wrth gyflawni ei swyddogaethau ers cyhoeddi'r adroddiad diwethaf.

#### Clerc i'r Corff Llywodraethol

Y Clerc i'r Corff Llywodraethol yw'r Swyddog Cymorth i Lywodraethwyr, sef Anneli Hunt, Tŷ Trevithick, Abercynon, Aberpennar, CF45 4UQ.

#### Cadeirydd y Corff Llywodraethol

Cadeirydd y Corff Llywodraethol yw Ms Julie Barton d/o Ysgol Garth Olwg, Heol Sant Illtyd, Pentre'r Eglwys, CF38 1DX.

#### Aelodau'r Corff Llywodraethol

Mae'r bobl ganlynol yn aelodau o'r Corff Llywodraethol ar hyn o bryd.

Enw	Categori Llywodraethwr	Penodwyd Gan	Dyddiad Ymddeol
Julie Barton Alex Harden Ray Butler Graham Stacy Sara Thomas	AALI	Aelodau'r Cyngor	31.8.23 i bawb
Lynsey Edwards Rhys Llewelyn Richard Martin Sam Rosie Rebecca Willis	Llywodraethwyr Cymunedol	Corff Llywodraethol	10.10.23 i bawb
Sioned Geraint Ann Griffiths Kathryn Gwyn Rhuanedd Richards Anna Spicer Aelod newydd i'w gadarnhau	Rhiant	Rhieni	30.9.23 i bawb
Carys Amos Lowri Stagg	Athro	Staff Addysgu	12.9.23 25.9.23
Alyson Samuel	Staff	Staff Nad Ydynt yn Addysgu	3.10.23
Trystan Edwards	Pennaeth		31.8.23

Pan fydd wedi'i sefydlu'n llawn, mae'r corff llywodraethol yn cynnwys y canlynol:

Cynrychiolwyr yr AALI	5
Rhiant Lywodraethwyr	6
Cynrychiolydd Staff	1
Pennaeth	1

Llywodraethwyr Cymunedol	5
Athro Lywodraethwr / Lywodraethwyr	2
Is-Awdurdod (os yw'n berthnasol)	0
Cyfanswm	20

## **Treuliau Llywodraethwyr**

Yn ystod y flwyddyn 2020/2021, ni thalwyd treuliau i unrhyw lywodraethwyr am eu gwaith i'r ysgol, ac nid oedd costau teithio chwaith o ganlyniad i'w gweithgareddau ar ran yr ysgol.

## **Penderfyniadau**

Ni phasiwyd unrhyw benderfyniadau yn y cyfarfod diwethaf.

## **Ethol Rhiant Lywodraethwyr**

Cynhelir etholiad nesaf rhiant lywodraethwyr ym mis Medi 2023.

Fodd bynnag, os bydd unrhyw Riant Lywodraethwr / Lywodraethwyr yn ymddiswyddo cyn y dyddiad hwn, bydd trefniadau'n cael eu gwneud i gynnal etholiad ar yr adeg briodol.

## **Data ar Berfformiad yr Ysgol**

Yn ystod y flwyddyn academaidd hon, nid yw'n ofynnol i ni gyhoeddi ffigurau o ganlyniad i newidiadau i bolisiau LLC.

Mae'r ysgol wedi ymrwmo i wella safonau ar draws pob agwedd ar fywyd ysgol, er mwyn i'n holl ddysgwyr gyrraedd eu llawn potensial.

## **Prosbectws yr Ysgol**

Ar hyn o bryd, mae'r Corff Llywodraethol wrthi'n gweithio ar Brosbectws Ysgol newydd sbon i adlewyrchu ein statws 3-19. Yn anffodus, cafodd y gwaith hwn ei ohirio gan y pandemig, ond wedi i'r prosbectws gael ei gynhyrchu, bydd yn cael ei adolygu bob blwyddyn i gynnwys unrhyw newidiadau sy'n ofynnol gan Lywodraeth Cymru neu gyrff eraill cysylltiedig. Yn gyffredinol, cyflwynir copi o'r prosbectws i rieni y mae eu plant yn dechrau'r ysgol am y tro cyntaf, neu'n trosglwyddo o ysgol arall. Bydd copi o'r prosbectws hwn yn cael ei roi ar wefan yr ysgol.

Rhoddir gwybod i rieni os caiff unrhyw ddiwygiadau eu gwneud i'r prosbectws presennol.

## **Cynllun Datblygu Ysgol**

Mae'r Pennaeth a'r Tîm Arweinyddiaeth, ar y cyd â'r corff llywodraethol, yn gyfrifol am lunio'r Cynllun Datblygu Ysgol. Mae'r cynllun yn nodi i ba gyfeiriad y bydd yr ysgol yn mynd wrth gyflwyno'r cwricwlwm a chodi safonau ar draws yr ysgol. Caiff y cynllun ei fonitro a'i ddiwygio'n rheolaidd i ystyried y cynnydd a wnaed, ac unrhyw newidiadau i ofynion y cwricwlwm.

Bydd y Cynllun Datblygu Ysgol blynyddol ar gyfer blwyddyn academaidd 2021/22 yn cael ei ystyried a'i gymeradwyo gan lywodraethwyr, a bydd staff yn ei roi ar waith. Y flaenoriaeth fydd adfer yr amser a gollwyd yn ystod y cyfnod clo a sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn dal i fyny â chynnydd a gollwyd; a bod disgyblion mewn blynyddoedd tyngedfennol yn barod ar gyfer arholiadau a/neu asesiadau athrawon, pa un bynnag o'r ddau a ddefnyddir eleni.

## Defnyddio'r Gymraeg – Cyfathrebu

Mae'r ysgol hon yn ysgol cyfrwng Cymraeg. Caiff gwersi a gweithgareddau eraill yr ysgol eu cyfleu trwy gyfrwng y Gymraeg. Cyfathrebir â rhieni a'r gymuned ehangach yn ddwyieithog.

## Dyddiadau Tymhorau a Gwyliau yn ystod Blwyddyn Academaidd 2021/2022

Amseroedd tymhorau ysgol, 2021 i 2022

Tymor	Dechrau	Hanner tymor		Gorffen
		Dechrau	Gorffen	
Hydref 2021	Dydd Iau, 2 Medi 2021	Dydd Llun, 25 Hydref 2021	Dydd Gwener, 29 Hydref 2021	Dydd Gwener, 17 Rhagfyr 2021
Gwanwyn 2022	Dydd Mawrth, 4 Ionawr 2022	Dydd Llun, 21 Chwefror 2022	Dydd Gwener, 25 Chwefror 2022	Dydd Gwener, 8 Ebrill 2022
Haf 2022	Dydd Llun, 25 Ebrill 2022	Dydd Llun, 30 Mai 2022	Dydd Gwener, 3 Mehefin 2022	Dydd Gwener, 22 Gorffennaf 2022

Bydd \*dydd Iau, 2 Medi 2021 yn ddiwrnod HMS dynodedig ar gyfer pob Ysgol a Gynhelir gan Awdurdod Lleol. Bydd y pedwar diwrnod HMS arall yn cael eu cymryd yn unol â dewis pob ysgol unigol yn dilyn ymgynghoriad priodol â staff.

Bydd pob ysgol ar gau hefyd ddydd Llun, 2 Mai 2022 ar gyfer Gwyl Banc Calan Mai.

Diwrnodau arwyddocaol:

- Y Nadolig - Dydd Sadwrn, 25 Rhagfyr 2021
- Y Pasg - Dydd Gwener y Groglith, 15 Ebrill 2022  
- Dydd Llun y Pasg, 18 Ebrill 2022
- Gwyliau Banc Mai - Dydd Llun, 2 Mai 2022  
- Dydd Iau, 2 Mehefin 2022  
- Dydd Gwener, 3 Mehefin 2022

Cynhelir diwrnod HMS ychwanegol bob blwyddyn ar gyfer y blynyddoedd academaidd nesaf, hyd at 2022. I'w gynnal yn flynyddol yn ystod tymor yr haf. Bydd y diwrnodau HMS hyn yn benodol at ddiben Dysgu Proffesiynol i gefnogi cyflwyno a chyflenwi'r cwricwlwm newydd.

## **Diwrnodau Dysgu Proffesiynol**

3.9.21  
1.10.21  
29.11.21  
23.6.22  
24.6.22  
22.7.22

## **Ysgolion Bro**

Ysgol fro yw ysgol sydd: ‘yn darparu ystod o wasanaethau a gweithgareddau’, yn aml y tu hwnt i’r diwrnod ysgol, i helpu diwallu anghenion ei disgyblion, eu teuluoedd a’r gymuned ehangach. Ledled Cymru, mae llawer o ysgolion eisoes yn darparu rhai gwasanaethau cymunedol, gan gynnwys addysg oedolion, cymorth astudio, cyfleusterau TGCh a rhaglenni chwaraeon cymunedol. Rydym yn ffodus ein bod wedi’n lleoli ar Gampws Garth Olwg, lle rydym yn gweithio mewn partneriaeth â’r Ganolfan Dysgu Gydol Oes, sydd ynddi’i hun, o dan amgylchiadau arferol, yn cynnig ystod eang o gyrsiau a gweithgareddau wedi’u hanelu at bob ystod oedran.

Nid prosiect neu fenter tymor byr yn unig yw datblygu ysgolion bro, ond cyfle gwirioneddol i ysgolion a chymunedau weithio gyda’i gilydd mewn ffyrdd newydd er budd plant, pobl ifanc ac oedolion yn y dyfodol. Cyn i Ysgol Garth Olwg fod yn ysgol 3-19, roedd yr ysgolion cynradd ac uwchradd, sydd bellach wedi uno, yn meddu ar hanes balch o weithgareddau o fewn ein cymuned leol, ac er ei lles. Pan fydd yr amser yn iawn, byddwn yn ailafael yn y gweithgareddau a’r partneriaethau hynny gyda brwdfrydedd o’r newydd.

## **Adolygu Polisiâu’r Ysgol**

Fel Corff Llywodraethol newydd i ysgol newydd, rydym yn gweithio trwy ddiweddarau ein holl bolisiau, gan sicrhau, yn y lle cyntaf, bod pob polisi statudol pwysig yn ei le. Gellir dod o hyd i bolisiau ar wefan yr ysgol. Hefyd, rydym wedi diwygio polisiâu perthnasol yn sgil y coronafeirws.

## **Anghenion Dysgu Ychwanegol**

Mae Polisi’r Ysgol ar gyfer Asesu a Darpariaeth ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol wedi’i grynhoi fel a ganlyn:

Mae Polisi’r Ysgol ar gyfer nodi, asesu a darparu ar gyfer disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol yn gyson â gofynion Cod Ymarfer Anghenion Addysgol Arbennig Cymru, a gyhoeddwyd gan Lywodraeth Cynulliad Cymru ym mis Ionawr 2002.

Mae Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol (CydADY) yr ysgol yn gweithio’n agos gyda phob aelod arall o staff i sicrhau bod cynlluniau addysg unigol yn cael eu datblygu a’u rhoi ar waith i ddiwallu anghenion disgyblion, yn briodol i’r rheiny sydd eu hangen.

Mae’r Cydlynnydd Anghenion Dysgu Ychwanegol hefyd yn cysylltu â phob aelod o staff, i sicrhau bod cynnydd pob disgybl yn cael ei fonitro a’i asesu’n rheolaidd, a sicrhau bod pob disgybl yn cyflawni ei botensial.

Yn ystod y flwyddyn academaidd bresennol, ar ddyddiad cyfrifiad CYBLD:

- roedd 26 o ddisgyblion yn dilyn cynllun Gweithredu gan yr Ysgol / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar;
- roedd 15 o ddisgyblion yn dilyn cynllun Gweithredu gan yr Ysgol a Mwy / Gweithredu yn y Blynyddoedd Cynnar a Mwy (gan gynnwys y rheiny sydd â Nodiadau yn lle Datganiad);
- roedd gan 10 disgybl ddatganiadau o Anghenion Addysgol Ychwanegol.

Mae'r bil ADY newydd yn gyrru'r ffordd rydym yn gweithio fel ysgol, ac er y gallai fod oedi wedi digwydd wrth ei roi ar waith, rydym ni'n gwneud cynnydd da yn newid ein harferion gweithio i sicrhau eu bod yn gydnaws â disgwyliadau newydd. Mae'r CADY wedi diweddarau staff a rhieni yn rheolaidd o'r newidiadau, yn ogystal â chynnal cyfarfodydd person-ganolog ar gyfer pob plentyn sydd ar y gofrestr AAA, ac wedi sicrhau bod gan bob plentyn ddogfen proffil un-tudalen. Mae hefyd adran ADY ar wefan yr ysgol, gyda gwybodaeth i rieni ar ADY a'r Cod Ymarfer ADY.

### **Mynediad ar gyfer Disgyblion Anabl**

Mae'r corff llywodraethol yn ystyriol o ofynion Deddf Gwahaniaethu ar Sail Anabledd (DGSA) 1995 a Deddf Anghenion Arbennig ac Anabledd (SENDA) 2005 yn ei weithredoedd a'i weithgareddau dyddiol.

Mae'r ysgol wedi ymrwymo i sicrhau bod yr holl ddisgyblion yn gallu cymryd rhan yng nghwricwlwm yr ysgol ac (os byddant yn dymuno) mewn gweithgareddau fel clybiau ar ôl yr ysgol, digwyddiadau hamdden / chwaraeon ac ymweliadau addysgol (pan fyddant yn eu lle, a phan fydd cyfyngiadau'r pandemig yn caniatáu iddynt ailddechrau). Mae pob agwedd ar hygyrchedd, gan gynnwys mynediad at wybodaeth ysgrifenedig, wedi eu cynnwys yn y broses gynllunio a'r cynllun hygyrchedd.

Mae'r Awdurdod wedi rhoi Strategaeth Hygyrchedd ar waith, ac yn unol â'r strategaeth hon, cynhaliwyd archwiliad o safle'r ysgol, fel rhan o friff ar draws yr Awdurdod, i nodi unrhyw rwystrau posibl, a gwella'r mynediad i'r ysgol (yn y pen draw).

### **Gwneuthuriad yr Adeilad a Darpariaeth Toiledau**

Addaswyd ein prif adeilad yn haf 2019 i greu darpariaeth ar gyfer Blynyddoedd 5 a 6 yr Ysgol Ganol. Mae'r adeilad hwn bellach yn cynnwys offer da ac yn gwbl hunangynhwysol, sy'n cysylltu â gweddiill yr ysgol ganol, yr ysgol uchaf a'r ysgol uwchradd, pan ddymunir. Hefyd, mae hyn wedi rhyddhau gofod yr oedd ei angen yn fawr yn yr ysgol isaf, sydd bellach yn cynnwys disgyblion hyd at Flwyddyn 4.

Rydym ni wedi parhau i gael problemau â thoeau ein holl adeiladau, ac mae gwaith adfer wedi bod yn mynd rhagddo ers dros flwyddyn. Mae'r gwaith wedi'i gwblhau erbyn hyn, ac rydym yn diolch i Gyngor RhCT a'i bartneriaid am wneud y gwaith mor gyflym ac effeithlon â phosibl. Bu'r Awdurdod Lleol yn gweithio'n galed iawn yn ystod Haf 2019 hefyd i wella draeniad ein caeau chwaraeon, na fyddai modd eu defnyddio ar ôl unrhyw fath o law trwm, heb y gwaith.

Mae gennym ddarpariaeth ddigonol o doiledau yn ein holl adeiladau. Caiff y toiledau eu glanhau o leiaf ddwywaith y dydd yn ystod diwrnod ysgol arferol, ac mae tîm o ofalwyr ar gael trwy gydol y dydd os bydd angen eu glanhau ymhellach. Yn ystod y pandemig, cafodd y toiledau (ac ardaloedd eraill a ddefnyddir yn aml) eu glanhau yn barhaus trwy gydol y diwrnod ysgol, trwy gymorth ychwanegol gan yr Awdurdod Lleol.

## **Gosod Targedau**

Mae gwybodaeth am weithredu ac adolygu strategaethau a thargedau'r ysgol wedi ei chofnodi'n fanwl yn y Cynllun Datblygu Ysgol. Nid yw newid mewn polisi o ganlyniad i'r pandemig yn golygu ei fod yn ofynnol i ni gyhoeddi'r rhain. Rydym yn canolbwyntio o hyd ar sicrhau bod ein disgyblion yn cyflawni yn unol â'u potensial.

## **Gwybodaeth am Bresenoldeb**

Rydym ni'n gwbl glir fod disgyblion yn dysgu orau pan fyddant yn yr ysgol, er ein bod yn ymwybodol iawn os na all disgybl ddod i'r ysgol am fod rhaid iddo hunanyysu, yna mae'n rhaid i ni drefnu darpariaeth iddo barhau â'i ddysgu. Nid yw newid mewn polisi o ganlyniad i'r pandemig yn ei gwneud yn ofynnol i ni gyhoeddi data ar bresenoldeb, ond rydym yn falch ar y cyfan ag agwedd ein dysgwyr a'n rhieni ers ailagor yr ysgol i'r holl ddisgyblion ym mis Medi. Mae'n glir fod mwyafrif ein dysgwyr eisiau bod yn yr ysgol, ac yn gwerthfawrogi'r strwythur a'r fframwaith cymdeithasol mae'n ei ddarparu, yn enwedig ar ôl misoedd o gyfnod clo. Byddwn yn parhau i weithio i gadw ein cyfraddau presenoldeb mor uchel ag y bo modd dan yr amgylchiadau presennol.

## **Trefniadau Derbyn / Pontio**

Cyngor Bwrdeistref Sirol Rhondda Cynon Taf yw'r Awdurdod Derbyn ar gyfer pob ysgol (ar wahân i ysgolion Eglwys lle mae corff llywodraethol yr ysgol yn gweithredu fel yr awdurdod derbyn) o fewn ffiniau'r Awdurdod. Felly, mae trefniadau derbyn yr ysgol yn gweithredu yn unol â pholisi'r Awdurdod ar dderbyn i ysgolion, sydd wedi'i gynnwys yn y cyhoeddiad Dechrau'r Ysgol (Starting School). Mae'r llyfr ar gael i rieni pan fyddant yn gwneud cais i dderbyn eu plentyn i'r ysgol. Hefyd, gellir gweld cynnwys y llyfr hwn ar-lein ar wefan yr Awdurdod, sef [www.rctcbc.gov.uk](http://www.rctcbc.gov.uk).

## **Data ar Gyrcfannau**

Mae'r tabl isod yn amlinellu'r data ar gyrchfannau ar gyfer dysgwyr ôl-18.

<b>Cyrchfan</b>	<b>Myfyrwyr (%)</b>
Prifysgol	81
Cyflogaeth	9
Iwyddyn i Ffwrdd / Cyflogaeth ran-amser	9
Arall	>1

## **Gweithgareddau Cyfoethogi**

Caiff amrywiaeth o weithgareddau allgyrsiol eu darparu, yn cynnwys ymweliadau addysgol, cystadlaethau mewnol, a theithiau ysgol, a gynhaliwyd yn unol â'r arfer yn ystod tymor yr haf. Cawsom wythnos wych ym mis Mehefin pan ymwelodd Aled o Animal Encounters â'r ysgol, gan ddod ag amrywiaeth o anifeiliaid gydag ef, yn cynnwys armadillos, meerkats a binturong. Roedd yr



holl ddisgyblion, rhwng 2 ac 19 oed, yn gallu dal neu ryngweithio â'r anifeiliaid, ac roedd yn bleser gweld eu hadwaith iddynt.

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan yn llwyddiannus mewn nifer o ddigwyddiadau rhithiol, gan gynnwys Brilliant Club a Hwb Seren. Dyma enghreifftiau eraill o weithgareddau cyfoethogi:

- Yn ystod ein Rhaglen Gyfoethogi, sy'n para pythefnos, trefnwyd amrywiaeth o weithdai – cymerodd disgyblion Blwyddyn 10 ran mewn achos llys ffug, cafodd disgyblion Blwyddyn 9 wersi Siapanaeg, a chynhaliwyd gweithdai dawns ar gyfer disgyblion yr ysgol is.
- Cynhaliwyd gweithdai celf gyda'r artist Catrin Williams ac mewn cydweithrediad â Phrifysgol Metropolitan Caerdydd ar Dirweddau Cymru
- Mynychodd partneriaeth Ysgol Garth Olwg weithdy rhithiol gydag Anni Llŷn, sef Bardd Plant Cymru, a chymerwyd rhan mewn cwis Blwyddyn 6.
- Mynychodd disgyblion Blwyddyn 12 ddigwyddiadau a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerdydd – “Gwyddoniaeth mewn Iechyd yn Fyw!” a “Cyfarfod â'r Patholegwyr” a darlithoedd rhithiol a gynhaliwyd gan Brifysgol Caerfaddon a Phrifysgol Metropolitan Caerdydd.
- Fe wnaeth grŵp o fyfyrwyr gystadlu yn Her Dyfeiswyr Davidson a gynhaliwyd gan Brifysgol Caergrawnt ac eraill mewn cwis Daearyddiaeth o'r enw Welshwise. Cymerodd nifer o ddisgyblion ran yn y Gystadleuaeth Awduron Ifanc.
- Mynychodd un o ddosbarthiadau Blwyddyn 9 weithdy rhithiol Technocamps.
- Amrywiaeth o ddigwyddiadau rhithiol Gwyl y Gelli.

### **Cyflawniadau ym maes Chwaraeon**

Mae'r ysgol wedi cymryd rhan mewn amrywiaeth o ddigwyddiadau chwaraeon, gan gynnwys pêl-rwyd, pêl-droed, rygbi, athletau, dawns a gymnasteg, ond mae'r pandemig wedi ein hatal ni rhag cymryd rhan mewn ystod lawn o ddigwyddiadau gydag ysgolion eraill. Mae hyn yn newid yn ystod y flwyddyn academiaidd bresennol gan fod cyfyngiadau wedi cael eu codi. Hefyd, mae ystod o weithgareddau allgyrsiol ar gael, gan gynnwys rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, dawns, badminton, pêl-fasged, rhedeg traws gwlad, athletau, tennis, rownderi.

Cynhaliwyd nifer o gyflawniadau chwaraeon eleni. Roedd y rhain yn cynnwys disgyblion yn cynrychioli Cymru yn y campau canlynol:

- Pêl-droed i ferched o dan 14 oed ac 16 oed,
- Twrnaint 6 Gwlad o dan 20 oed Undeb Rygbi Cymru
- Rygbi'r Gynghrair i fechgyn o dan 15 oed
- Cynrychiolwyr pêl-fasged Cymru o dan 16 oed ac o dan 14 oed
- Cynrychiolwyr Gymnasteg Cymru o dan 16 oed ac 14 oed
- Nifer o gynrychiolwyr rhanbarthol ar draws rygbi, pêl-droed, pêl-rwyd, a chwaraeon eraill
- Chwaraewyr Academi Pêl-droed o dan 14/15 oed ar gyfer Dinas Caerdydd a Dinas Abertawe
- Nifer o chwaraewyr merched Clwb Pêl-droed Dinas Caerdydd
- Ysgoloriaethau Rygbi i Millfield a Choleg Crist, Aberhonddu
- Un o'r merched yn ennill ras 2k iau Casnewydd, ac yn 2<sup>ll</sup> yng Nghaerdydd

### **Bwyta'n Iach**

Yn Ysgol Garth Olwg, rydym yn hybu bwyta'n iach trwy annog plant i fwyta byrbrydau iach yn ystod amser egwyl y bore, a chinio iach yn ystod amser cinio.

Rydym ni'n addysgu plant am bwysigrwydd diet cytbwys trwy wersi ABCh, gwyddoniaeth a dylunio a thechnoleg, a thrwy ddigwyddiadau thema trwy gydol y flwyddyn yn ogystal.

### Sut caiff yr Ysgol ei Hariannu?

Mae'r ALL yn darparu cyllideb i'r ysgol ar gyfer pob blwyddyn ariannol, yn seiliedig ar nifer o ffactorau, gan gynnwys nifer y plant ar y gofrestr ADY, gofod llawr yn yr ysgol, ac ati, ond y prif ffactor yw niferoedd y disgyblion yn yr ysgol. Yr enw ar y cyllid a dderbynnir gan yr ALL yw'r Gyllideb Ysgol Ddirprwyedig.

Wedi i'r ysgol dderbyn y gyllideb ysgol ddirprwyedig, bydd y llywodraethwyr yn penderfynu wedyn sut y dylid dyrannu'r arian hwn, ac yn cytuno ar gyllideb a ddilynir am y flwyddyn. Caiff y cyfrif hwn ei fonitro'n barhaus gan y Pennaeth, y Rheolwr Cyllid, yr ALL ac Is-bwyllgor y Corff Llywodraethol yn eu cyfarfodydd rheolaidd, ynghyd â diweddariadau tymhorol i'r Corff Llywodraethol.

### Datganiad Ariannol ar gyfer Blwyddyn Ariannol 2020-21

	<u>Disgrifiad</u>	<b>£</b>
<b>Cyflog</b>	Athrawon / APT / Gweithwyr llafuriol	£ 4,589,533.50
<b>Adeilad</b>	Cyfleustodau / Cynnal a chadw / Dŵr	£ 458,901.39
<b>Ardrethi</b>		£ 161,516.50
<b>Cyflenwadau a Gwasanaethau</b>		£ 661,519.50
<b>Eraill</b>	Prydau Ysgol / Gwisg / Trafnidiaeth	£ 24,442.22
		<b>£ 5,895,913.15</b>
<b>Incwm sylfaenol a grantiau</b>	Gwybodaeth sylfaenol a grantiau	£ 990,775.78
	Cyfanswm y gwariant namyn yr incwm = Cyfanswm y gwariant	<b>£ 4,905,137.37</b>
	Cyfanswm y cyllid ar gael namyn y gwariant (Dwyn y ffigur ymlaen i 2021-22)	<b>£ 423,127.05</b>
<b>Dyraniad Fformiwla</b>	Dyraniad Disgyblion ac ôl 16 oed	£ 5,283,379.23
<b>Ychwanegiad i'r Fformiwla</b>	Ardrethi /Adolygol	£ 6,171
<b>Dwyn ymlaen 2019-20</b>		£ 38,714.69
		<b>£ 5,328,264.42</b>